# Cyngor Dinas Caerdydd
# Canllaw Offeryn Sgrinio Statudol

Os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgarwch sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd, mae nifer o ofynion statudol sy'n berthnasol. Gall methiant i gydymffurfio â'r gofynion hyn, neu ddangos ystyriaeth, amlygu'r Cyngor i her gyfreithiol neu ffurfiau eraill o gerydd.

Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol i strategaethau (h.y. Strategaeth Tai neu Strategaeth Chwarae Anabl), polisïau (h.y. Polisi Caffael), neu weithgarwch (h.y. datblygu ardal chwarae newydd).

Bydd Cwblhau'r Offeryn Sgrinio Statudol yn sicrhau bod strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â goblygiadau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen ystyried mater yn fwy manwl, bydd yr Offeryn Sgrinio Statudol yn nodi bod angen asesiad effaith llawn, fel sy'n berthnasol.

---

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisïau neu weithgareddau eu hadlewyrchu yn cynnwys:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl hŷn**
- **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r Offeryn Sgrinio Statudol yn caniatáu i'r Cyngor ddiwallu gofynion yr holl ddeddfwriaeth uchod fel rhan o ddull sgrinio integredig ac ni ddylai gymryd mwy nag awr i'w gwblhau.

---

Gall yr Offeryn Sgrinio Statudol gael ei gwblhau fel hunan asesiad neu fel rhan o sesiwn a hwylusir, pe bai angen cymorth pellach. Am ragor o wybodaeth neu os hoffech sesiwn a hwylusir, cysylltwch â'r Rheolwr Gweithredol – Polisi, Partneriaethau a Chyswllt Cymunedol ar (029) 2078 8561 neu ar e-bost: Gareth.Newell@caerdydd.gov.uk

Cofiwch:

- **Mae'n rhaid i'r Offeryn Sgrinio wedi ei gwblhau gael ei gyflwyno fel atodiad gydag adroddiad y Cabinet.**
- **Caiff yr Offeryn Sgrinio wedi ei gwblhau ei gyhoeddi ar Ryngrwyd y Cyngor.**

# Yr Offeryn Sgrinio Statudol

| | |
|---|---|
| **Enw'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd: Gwella'r Ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2018-2022** | **Dyddiad y Sgrinio: 26/3/18** |
| **Gwasanaeth / Adran: Addysg** | **Swyddog Arweiniol: Jennie Hughes** |
| **Mynychwyr:**<br>Jennie Hughes, Carly Davies, Jackie Turner | |

| **Beth yw amcanion y Polisi / Strategaeth / Project / Gweithdrefn / Gwasanaeth / Swyddogaeth** | **Rhowch wybodaeth gefndirol ar y Polisi / Strategaeth / Project / Gweithdrefn / Gwasanaeth / Swyddogaeth ac unrhyw ymchwil a wnaed [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ac ati.]** |
|---|---|
| Mae angen i ddarpariaeth ADY yng Nghaerdydd gynyddu mewn ymateb i nifer gynyddol o ddysgwyr sydd angen lle mewn Ysgol Arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol fel a nodir yng Nghynllun Datblygu ADY 2018 – 2022.<br><br>Ymgynghorwyd ar nifer o gynlluniau i gyflawni'r amcan hwn yn unol ag adran 44/48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 gan fod angen "diwygiadau wedi eu rheoleiddio" arnynt.<br><br>Ni fydd y cynigion a amlinellir yn ymdrin yn llawn ag anghenion digonolrwydd ar gyfer y cyfnod 2018 - 2022 ac mae'r Cyngor wedi cymryd amrywiaeth o gamau i gynyddu darpariaeth yn ôl anghenion a bydd yn parhau i wneud hynny.<br><br>Mae'r cynigion fel a ganlyn:<br>**Tŷ Gwyn**<br>Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth neu CSA cynigir<br>• Cynyddu nifer y lleoedd dynodedig yn Nhŷ Gwyn i 198; | **Achos Busnes ar gyfer Buddsoddi mewn Cynigion ADY**<br>Bydd methiant i fuddsoddi mewn darpariaeth yng Nghaerdydd dros y 3-4 blynedd nesaf yn arwain at y Cyngor yn dod yn fwy dibynnol ar ddarparwyr ysgolion arbennig annibynnol er mwyn diwallu cyfrifoldebau statudol y Cyngor. Byddai gor-ddibyniaeth ar leoedd annibynnol yn arwain at y goblygiadau a'r risgiau canlynol:<br>• Costau refeniw uwch i'r Cyngor<br>• Analluu i gynnig lleoedd yn ôl dewis rhieni<br>Mae cost lleoedd ysgol arbennig annibynnol yn amrywio o £39K i £77K y flwyddyn, o gymharu â chostau yn ysgolion arbennig Caerdydd o £14K i £25K y flwyddyn. Anaml iawn mae er lles y disgybl i newid ysgol ar ganol cyfnod felly ar ôl cael lle nid yw'n debygol y bydd disgyblion yn dychwelyd i ddarpariaeth a gynhelir pe bai lleoedd ar gael yn y dyfodol. Felly, byddai'r costau'n parhau dros 7-8 mlynedd ar gyfer lleoedd sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7, ac am fwy o amser o bosibl ar gyfer lleoedd cynradd.<br>Mae mwyafrif rhieni Caerdydd yn mynegi dewis am leoedd yn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol Caerdydd i'w plentyn. Gallai cynnig lleoedd mewn ysgolion annibynnol roi enw gwael i Gaerdydd.<br>Dylid nodi nad oes sicrwydd y gall y sector annibynnol gynnig digon o leoedd |

- sefydlu 3 ystafell ddosbarth ychwanegol drwy addasu hen adeilad Canolfan Ieuenctid Treláі, sydd wedi ei leoli y tu ôl i'r ysgol

**Greenhill**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb yr angen am leoedd ôl-16 ar gyfer iechyd emosiynol a llesiant cynigir

- ymestyn ystod oed Greenhill o 11-16 i 11-19 a
- cynyddu capasiti'r ysgol i hyd at 64 o leoedd.

**Meadowbank**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir

- newid dynodiad Ysgol Meadowbank o: 'amhariadau ieithyddol penodol', i: 'anghenion iaith lleferydd a chyfathrebu ac anableddau dysgu cymhleth'

**Allensbank**

Y CYNNIG: I ateb y galw am leoedd ymyrraeth gynnar ar gyfer anghenion iaith a lleferydd, cynigir

- Dirwyn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Allensbank i ben yn raddol, gan gau'r dosbarth fis Gorffennaf 2020,neu pan fydd yr holl ddisgyblion presennol wedi cwblhau eu lleoliad, os yn gynt na hynny.
- Agor dosbarth ymyrraeth gynnar 8-lle i blant ag anghenion iaith a lleferydd yn Ysgol Allensbank, gan dderbyn y cohort cyntaf fis Medi 2019.

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfan adnoddau arbenigol cynradd i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir

- Agor canolfan adnoddau arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair, ar gyfer hyd at 20 lle.

**Ysgol Pwll Coch**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am lefydd CAA ar gyfer plant ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir

- Agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch yn cynnig hyd at 10 lle i ddechrau, ond gyda modd cynyddu i 20 yn y dyfodol,

mewn ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion digonolrwydd Caerdydd, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd. Gallai gorddibyniaeth ar y sector felly olygu nad yw Caerdydd yn cyflawni cyfrifoldebau statudol.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET)**

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA) ei phasio gan Gynulliad Cymru yn 2017. Bydd y ddeddfwriaeth yn trawsnewid y fframwaith statudol ar gyfer y maes cyfrifoldeb hwn, ac yn cyflwyno newidiadau sylweddol o ran sut y bydd rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda dysgwyr, teuluoedd a phartneriaid i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Cynllun Datblygu ADY 2018 – 2022**

Sefydlwyd Gweithgor ADY yn 2016 gyda chynrychiolwyr o ysgolion, swyddogion, iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, rhieni a Choleg Caerdydd a'r Fro. Daeth y grŵp at ei gilydd gydol blwyddyn academaidd 2016-17, i nodi'r blaenoriaethau strategol i wella canlyniadau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Nododd y gweithgor dair blaenoriaeth strategol:

- Blaenoriaeth Un:
  Gwella canlyniadau i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol drwy weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn llwyddiannus
- Blaenoriaeth Dau:
  Gwella canlyniadau i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol drwy gryfhau ein capasiti ar y cyd i ddiwallu'r holl anghenion
- Blaenoriaeth Tri:
  Gwella canlyniadau i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol drwy sicrhau darpariaeth dysgu ychwanegol digonol o ansawdd uchel

**Ymgynghoriad ar Gynigion – Crynodeb o'r ymatebion cyffredinol a dderbyniwyd**

Ymgynghorwyd ar y cynigion rhwng 31 Ionawr a 13 Mawrth 2018. Mae manylion yr ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad Gwella Darpariaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2018 – 2022

wrth i'r galw gynyddu.

**Ysgol Glantaf**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am lefydd CAA uwchradd ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir:

- cynyddu nifer y lleoedd dynodedig yn CAA Ysgol Glantaf i hyd at 30 o leoedd
- ehangu a gwella ar leoliad presennol y CAA

**Yr Hollies**

Y CYNNIG: Er mwyn ateb y galw am lefydd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd i ddysgwyr â chyflyrau'r sbectrwm awtistig cynigir:

- Ehangu'r ystod oed yn Ysgol Hollies o 4-11 i 4 -14
- Cynyddu nifer y lleoedd dynodedig i 138
- Drwy ailwampio'r adeiladau ysgol sydd i'w gwagio gan Ysgol Glan Morfa

Mae gwaith penodol hefyd wedi'i wneud ag amrywiaeth o randdeiliaid fel sail i gynigion. Mae grwpiau yn cynnwys y Gweithgor ADY, Grŵp Cyfeirio Iaith a Lleferydd yn ogystal â Chyrff Llywodraethu, Penaethiaid, staff, rhieni/gofalwyr ac Athrawon Arbenigol.
Hefyd, cynhaliodd Canolfan Ymchwil Caerdydd ymgynghoriad gyda disgyblion er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses. Gan adlewyrchu ymhellach ymrwymiadau addysgol Partneriaid Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
Mae'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid wedi pennu pa gynigion fydd yn cael eu datblygu a pha rai na fydd yn cael eu datblygu ac mae'r broses wedi sicrhau cynrychiolaeth lawn a chyfle i randdeiliaid gymryd rhan.

Cyfeiriadau eraill:

**Grŵp Cyfeirio Iaith a Lleferydd**

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

**Fforwm Addysg Gymraeg**

**Grŵp Strategol ADY**

| | |
|---|---|
| | |

## **Rhan 1:** *Effaith ar ganlyniadau ac ystyriaeth i Ddatblygu Cynaliadwy*

| **Defnyddiwch y raddfa ganlynol wrth ystyried pa gyfraniad a wna'r gweithgaredd:** | | |
|---|---|---|
| **+** | Cadarnhaol | Cyfraniad cadarnhaol i'r canlyniad<br>Cyfraniad negyddol i'r canlyniad<br>Cyfraniad niwtral i'r canlyniad<br>Ansicr os gwneir unrhyw gyfraniad i'r canlyniad |
| **-** | Negyddol | |
| **ntrl** | Niwtral | |
| **Ansicr** | Ddim yn siŵr | |

| | **Ydy'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd?** | Ticiwch **+** | **-** | ntrl | Ansicr | **Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella / lliniaru** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.1** | **Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;**<br>*Ystyriwch yr effaith posibl ar*<br>• *hyrwyddo iechyd da, atal ymddygiad difrodol, hyrwyddo bwyta'n iach / ffordd o fyw actif ac ati,*<br>• *dinasyddion agored i niwed ac ardaloedd o amddifadedd lluosog*<br>• *Ymdrin ag achosion o anghydraddoldeb o ran iechyd* | ✓<br>✓<br>✓ | | | | Mae'r Cyngor yn cydnabod unrhyw bryderon a godwyd ynghylch darpariaeth iechyd yn yr ymarfer ymgynghori, ac mae mewn trafodaethau â'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â hyn. Bydd y Cyngor yn ystyried ariannu rhywfaint o waith datblygiadol, i alluogi ysgolion arbennig Caerdydd i sicrhau mynediad gwell i hyfforddiant a chyngor ymgynghorol gan wasanaethau iechyd.<br><br>Hefyd, cydnabyddir bod nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynyddu yng Nghaerdydd ac felly ni fyddai methiant i ddatblygu cynigion yn ateb o ran darpariaeth iechyd, ar gyfer disgyblion presennol neu arfaethedig. Fodd bynnag, byddai'n cael effaith negyddol ar ddisgyblion arfaethedig, na fyddai'n gallu cael mynediad i Ddarpariaeth ADY.<br><br>Hefyd, yn dilyn gwaith y Gweithgor ADY, sefydlwyd y Grŵp Strategol ADY i oruchwylio'r gwaith o weithredu a hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhanddeiliaid gyda'r Strategaeth ADY. Bydd y lefel ymgysylltu gwell yma â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Swyddogion Addysg yn sicrhau bod gwasanaethau wedi'u halinio'n well wrth symud ymlaen. |
| **1.2** | **Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol** | | | | | Mae Asesiadau Trafnidiaeth wedi eu cwblhau ar bob cynnig a |

| | Ydy'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd? | Ticiwch + | - | ntrl | Ansicr | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella / lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **a chynaliadwy;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar*<br>• *achosion a chanlyniadau Newid yn yr Hinsawdd a chreu dinas carbon isel*<br>• *annog cerdded, beicio, a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a gwella mynediad i gefn gwlad a mannau agored*<br>• *lleihau llygredd amgylcheddol (tir, aer, sŵn a dŵr)*<br>• *lleihau creu ac annog lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff*<br>• *annog bioamrywiaeth* | ✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ | | | | mynediad pob safle wedi ei asesu. Mae'n amlwg fod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn ddigonol ac ystyrir fod safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy gan eu bod gerllaw safleoedd bysus a gorsafoedd rheilffyrdd, o fewn pellter cerdded a beicio cyfforddus ac mae'r amgylchedd hefyd yn ffafriol i gerdded a beicio. Barn gyffredinol yr Asesiadau Trafnidiaeth yw, yn nhermau priffyrdd a thrafnidiaeth, ni fydd y cynigion yn cael effaith wael ar y rhwydwaith briffyrdd o'u cylch. Mae hyn oherwydd y cynnydd bychan yn niferoedd y disgyblion.<br>Fodd bynnag, cydnabyddir fod i ddarpariaeth ADY ychwanegol ddalgylch ledled y ddinas ac felly efallai na fydd disgyblion yn byw gerllaw'r safle. O ganlyniad, efallai na fydd llwybrau cerdded, beicio, gwasanaethau bysus na rheilffyrdd yn addas o ran pellter nac anghenion disgyblion. Ar ben hynny, tra bod rhai disgyblion yn gallu teithio yn annibynnol gyda chymorth cydnabyddir na all eraill ac felly bydd gofyn i Gludiant Ysgolion weithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gofalwyr i edrych ar y ffyrdd mwyaf priodol o gludo disgyblion a'u hanghenion. |
| **1.3** | **Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar*<br>• *lleihau trosedd, ofn trosedd a chynyddu diogelwch unigolion*<br>• *mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol*<br>• *amddiffyn oedolion a phlant agored i niwed yng Nghaerdydd rhag niwed neu gamdriniaeth* | ✓<br>✓<br>✓ | | | | Mae gan Ysgol Arbennig Greenhill ddynodiad ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.<br>Mae data ar gyfer Caerdydd yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion Greenhill yn cael trafferth i bontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd Blwyddyn 11, er gwaetha'r cymorth helaeth ar gyfer pontio. Mae data 2015-17 yn dangos<br>Bod 50% neu fwy o'r rheiny sy'n gadael Greenhill ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar 31 Hydref. Mae disgyblion tra yn Greenhill ac wrth adael Greenhill yn fwy tebygol o ymwneud â'r Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid ac |

| | Ydy'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy’n canolbwyntio ar y Dinesydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella / lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | ntrl | Ansicr | |
| | | | | | | o’r herwydd mae’r cynnig hwn yn ceisio lleihau nifer y rheiny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy ymestyn y ddarpariaeth i ddisgyblion ôl 16 oed.<br>Bydd dosbarth ôl-16 yn cynnig ‘blwyddyn bontio’ i ddisgyblion Greenhill nad ydynt eto’n barod i bontio i’r coleg neu gyflogaeth ar ddiwedd Blwyddyn 11. Caiff disgyblion eu cefnogi i bontio’n llwyddiannus i’r coleg, hyfforddiant neu gyflogaeth erbyn diwedd Blwyddyn 12.<br>Cynigir hyn fel cam interim tuag at ddatblygu adran ôl-16 mwy cynhwysfawr fel rhan o gynllun Band B i sefydlu ysgol uwchradd fwy i bobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. |
| **1.4** | **Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar* | | | | | Fel uchod. |
| | • *cystadleugarwch economaidd (gweithgareddau menter, mentrau cymdeithasol, enillion ar gyfartaledd, gwella cynhyrchiant)* | ✓ | | ✓ | | |
| | • *Cynorthwyo’r rheiny Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant* | | | ✓ | | |
| | • *denu a chadw gweithwyr (cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd, cynyddu gwerth cyflogaeth)* | | | ✓ | | |
| | • *hyrwyddo cyfleoedd caffael lleol neu wella capasiti cwmnïau lleol i gystadlu* | | | | | |
| **1.5** | **Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar* | | | | | Diben y cynigion ADY yw cynyddu darpariaeth i’r rheiny ag ADY, gan wella eu cyfleoedd bywyd a chyfleoedd trwy Ddarpariaeth Ymyrraeth Gynnar, darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol well, darpariaeth Ysgol Arbennig well a Darpariaeth Ôl-16 well. Hefyd, mae darpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynyddu mewn ymateb i angen ac anghenion disgwyliedig fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gan y Fforwm Addysg Gymraeg. |
| | • *hyrwyddo a gwella mynediad i ddysgu gydol oes yng Nghaerdydd* | ✓ | | | | |
| | • *codi lefelau sgiliau a chymwysterau* | ✓ | | | | |
| | • *rhoi’r dechrau gorau i blant* | | | ✓ | | |
| | • *gwella’r ddealltwriaeth o gynaladwyedd* | | | ✓ | | |
| | • *ymdrin â thlodi plant (tlodi ariannol, tlodi mynediad, tlodi* | | | | | |

| | Ydy'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella / lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | ntrl | Ansicr | |
| | *cyfrannu)*<br>• *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion i Bobl Hŷn* | | | ✓ | | Mae Asesiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i gynnal ac mae'r cynigion yn diwallu pob un, ac eithrio wyth o'r Erthyglau gan sicrhau bod y cynigion yn mynd i'r afael â mwyafrif yr hawliau sydd gan blant a phobl ifanc er mwyn bod yn ddiogel, iach a hapus. |
| 1.6 | **Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Fyw, Gweithio a Chwarae ynddo**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar*<br>• *hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol Caerdydd*<br>• *annog cyfranogiad a mynediad i bawb i weithgareddau corfforol, hamdden a diwylliant*<br>• *cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc*<br>• *amddiffyn a gwella tirlun a threftadaeth hanesyddol Caerdydd*<br>• *hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol y ddinas* | | | ✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ | | Ddim yn berthnasol i'r cynigion |
| 1.7 | **Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol.**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar*<br>• *dileu gwahaniaethu, aflonyddwch neu erledigaeth i grwpiau cydraddoldeb*<br>• *yw'r gymuned neu'r rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth/polisi/gweithgaredd?*<br>• *sut fydd cyfranogiad dinasyddion yn cael ei annog (annog camau sy'n ystyried gwahanol ffurfiau o ymgynghori, trwy ymgysylltu mwy manwl i gyfrannu'n llawn mewn gweithgareddau datblygu a darparu gwasanaethau)?* | ✓<br>✓ | | ✓ | | Mae gwaith penodol hefyd wedi'i wneud ag amrywiaeth o randdeiliaid fel sail i gynigion a gyflwynwyd i gynyddu darpariaeth ADY. Mae grwpiau yn cynnwys y Gweithgor ADY, Grŵp Cyfeirio Iaith a Lleferydd yn ogystal â Chyrff Llywodraethu, Penaethiaid, staff, rhieni/gofalwyr ac Athrawon Arbenigol.<br>Hefyd, cynhaliodd Canolfan Ymchwil Caerdydd ymgynghoriad gyda disgyblion er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses. Gan adlewyrchu ymhellach ymrwymiadau addysgol Partneriaid Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br>Mae'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid wedi pennu pa gynigion fydd yn cael eu datblygu a pha rai na fydd yn cael eu datblygu ac mae'r broses wedi sicrhau cynrychiolaeth lawn a chyfle i randdeiliaid gymryd rhan. |

| | Ydy'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd wedi ystyried sut y bydd yn effeithio ar un neu fwy o 7 Canlyniad Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella / lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | ntrl | Ansicr | |
| | *Fydd y Polisi / Strategaeth / Project yn cael **effaith wahaniaethol** ar unryw un o'r canlynol:* | | | | | *Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol (cadarnhaol a negyddol), a pha gam(au) allwch chi eu cymryd i ymdrin ag unrhyw oblygiadau?* |
| | • **Oedran (gan gynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed a phobl hŷn dros 65 oed yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig)** | ✓ | | | | *Mae'r cynigion a gyflwynwyd yn cynyddu Darpariaeth ADY i blant a phobl ifanc ledled Caerdydd mewn ymateb i anghenion a nodir trwy'r Gweithgor ADY.*<br>Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol.<br>*Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i ADY a nodwyd ymysg disgyblion cyfrwng Cymraeg a chaiff darpariaeth ei chynyddu yn unol â hynny.* |
| | • **Anabledd** | ✓ | | | | |
| | • **Ailbennu Rhywedd** | ✓ | | | | |
| | • **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | ✓ | | | | |
| | • **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | ✓ | | | | |
| | • **Hil** | ✓ | | | | |
| | • **Crefydd / Cred** | ✓ | | | | |
| | • **Rhyw** | ✓ | | | | |
| | • **Cyfeiriadedd Rhywiol** | ✓ | | | | |
| | • **Yr Iaith Gymraeg** | ✓ | | | | |
| 1.8 | **Mae'r Cyngor yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r ddinas a'i dinasyddion trwy bartneriaethau cryf.**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar*<br>• *cryfhau partneriaethau gyda'r sectorau busnes a gwirfoddol*<br>• *yr agenda cydweithredu a'r potensial ar gyfer gwasanaethau a rennir, gwaith trawsffiniol ac arbedion effeithlonrwydd* | | | | | Ddim yn berthnasol |

| | Oes | **Nac oes** |
|---|---|---|
| **Oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn?** | ✓ | |
| **Oes angen Asesiad o Effaith ar Hawliau'r Plentyn?** | | ✓ |

## CRYNODEB O'R GWERTHUSIAD (amlygwch effeithiau cadarnhaol a negyddol y polisi / cynllun / project sy'n cael ei asesu, gan ddangos sut mae'n cyfrannu at gynaladwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddinas):

Gwelwyd twf sylweddol yn niferoedd y bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ers 2012, fel y gwelwyd gyda'r angen cynyddol am lefydd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol dros y pum mlynedd diwethaf. Disgwylir i'r duedd hon barhau am y 5-10 mlynedd nesaf.

Tra bydd y Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â phroblemau digonolrwydd ysgolion arbennig o 2021 neu 2022, bydd angen cymryd camau i ymestyn y ddarpariaeth i ateb y galw yn y cyfnod rhwng nawr a hynny, 2018-2022.

Bydd methiant i fuddsoddi mewn darpariaeth yng Nghaerdydd dros y 3-4 blynedd nesaf yn arwain at y Cyngor yn dod yn fwy dibynnol ar ddarparwyr ysgolion arbennig annibynnol er mwyn diwallu cyfrifoldebau statudol y Cyngor.
Byddai gor-ddibyniaeth ar leoedd annibynnol yn arwain at y goblygiadau a'r risgiau canlynol: Costau refeniw uwch i'r Cyngor; anallu i gynnig lleoedd yn ôl dewis rhieni

Mae cost lleoedd ysgol arbennig annibynnol yn amrywio o £39K i £77K y flwyddyn, o gymharu â chostau i ysgolion arbennig Caerdydd o £14K i £25K y flwyddyn. Anaml iawn mae er lles y disgybl i newid ysgol ar ganol cyfnod felly ar ôl cael lle nid yw'n debygol y bydd disgyblion yn dychwelyd i ddarpariaeth a gynhelir pe bai lleoedd ar gael yn y dyfodol. Felly, byddai'r costau'n parhau dros 7-8 mlynedd ar gyfer lleoedd sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7, ac am fwy o amser o bosibl ar gyfer lleoedd cynradd.

Mae mwyafrif rhieni Caerdydd yn mynegi dewis am leoedd yn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol Caerdydd i'w plentyn. Gallai cynnig lleoedd mewn ysgolion annibynnol roi enw gwael i'r ddarpariaeth. Dylid nodi nad oes sicrwydd y gall y sector annibynnol gynnig digon o leoedd mewn ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion digonolrwydd Caerdydd, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd. Gallai gorddibyniaeth ar y sector felly olygu nad yw Caerdydd yn cyflawni cyfrifoldebau statudol.

Ni fydd y cynlluniau a gynigir isod yn ymdrin yn llawn â'r anghenion digonolrwydd ar gyfer y cyfnod 2018-22. Mae'r Cyngor wedi cymryd amrywiaeth o gamau i gynyddu darpariaeth yn yr adeiladau presennol a niferoedd dynodedig lle bo'n bosibl, a bydd yn parhau i wneud hynny. Nid oes angen ymgynghoriad ffurfiol ar gamau o'r fath oni bai bod angen 'diwygiad wedi ei reoleiddio' arnynt. Rhagwelir hefyd y bydd angen datblygu a chynnig cynlluniau pellach yn 2019, i agor canolfannau adnoddau arbenigol ychwanegol yn y cyfnod cynradd ac uwchradd.

Mae angen 'diwygiadau wedi eu rheoleiddio' ar y cynlluniau a gynigir. Dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gall awdurdod lleol wneud cynigion i wneud diwygiadau wedi eu rheoleiddio ac mae gofyn iddo gwblhau ymgynghoriad ar y cynigion hynny, cyn eu cyhoeddi, yn unol ag adran 48 y Ddeddf a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Rhaid i unrhyw gynigion fod yn destun ymgynghoriad llawn a theg a dylid rhoi ystyriaeth deilwng gan y Cabinet i'r ymatebion cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

## PA GAMAU SYDD WEDI'U NODI NEU NEWIDIADAU SYDD WEDI'U GWNEUD I'R POLISI / CYNLLUN / PROJECT O GANLYNIAD I'R GWERTHUSIAD HWN:

Gallai Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fod yn ofynnol er mwyn nodi mwy o awgrymiadau neu gamau manwl ar y papur.

## **Rhan 2:** *Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)*

| | | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Ydy'r cynllun neu'r rhaglen yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol? | | ✓ |
| 2.2 | Ydy'r cynllun neu'r rhaglen yn debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol, cadarnhaol neu negyddol? | | ✓ |

| Oes angen Offeryn Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol Llawn? | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| ▪ Os ateboch 'Ydy' i gwestiynau 2.1. a 2.2. uchod, yr ateb yw 'Oes'<br>▪ Os oes angen offeryn sgrinio AAS llawn cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy i drefnu (manylion isod) | | ✓ |

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy am gyngor ar (029) 2087 3228 neu e-bostiwch: datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk

## **Rhan 3:** *Asesiad Rheoliad Cynefinoedd (ARhC)*

| | | Bydd / Oes | Na fydd / Nac oes | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Fydd y cynllun, project neu'r rhaglen yn arwain at weithgarwch a fydd yn effeithio ar safle Ewropeaidd, megis Aber Hafren neu Goedlannau Ffawydd Caerdydd? | | ✓ | |
| 3.2 | Fydd y cynllun, project neu'r rhaglen sy'n llywio datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, megis Aber Hafren neu Goedlannau Ffawydd Caerdydd neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | | ✓ | |
| 3.3 | Oes angen ARhC llawn? | | ✓ | |

Caiff manylion y strategaeth eu hanfon i Ecolegydd y Sir ar ôl cwblhau'r broses neu i bennu os oes angen Asesiad Rheoliad Cynefinoedd. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch (029) 2087 3215 neu ebostiwch: bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

## **Rhan 4:** *Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011*

| | | Ydw / Ydy | Nac ydw / Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Ydych chi wedi ystyried sut y gallai'r polisi gael ei ffurfio er mwyn i benderfyniad y polisi gael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg? | ✓ | | |
| 4.2 | Ydy'r polisi'n sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | ✓ | | |

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â'r tîm Caerdydd Ddwyieithog am gyngor ar (029) 2087 2527 neu ebostiwch: Caerdydd-Ddwyieithog@caerdydd.gov.uk

## Atodiad 1 – Gofynion Statudol

**Mae'n bosibl y bydd yr Offeryn Sgrinio Statudol yn nodi'r angen i gyflawni asesiadau statudol penodol:**

- **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb:** *Mae'r asesiad hwn yn ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 Llywodraeth Cymru.*
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** *Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn egwyddor trefnu canolog i'r sefydliad. Mae hyn yn golygu bod dyletswydd i ystyried datblygu cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau strategol.*
- **Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu-Cydymdrechu:** *Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun integredig unigol i ddiwallu gofynion statudol dan ystod o ddeddfwriaeth. Felly rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd ddangos ei gyfraniad tuag at gynllun integredig Caerdydd: "Beth sy'n Bwysig".*
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:** *Mae canllaw Cymru Deddf Plant 2004 yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl hŷn:** *Mae'r egwyddor yn nodi bod angen ystyried annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunan-fodlonrwydd ac urddas.*
- **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**: *Mae'r Mesur yn nodi statws swyddogol ar gyfer yr iaith Gymraeg, Comisiynydd Iaith, a rhyddid i siarad Cymraeg.*
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd:** *Mae (AEI) yn ystyried polisïau, rhaglenni neu brojectau ar gyfer eu heffeithiau posibl ar iechyd poblogaeth.*
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:** *Mae Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygiad) 2007 yn nodi gofyniad i gyflawni Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o gynlluniau defnydd tir.*
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol:** *Cyfarwyddyd Ewropeaidd yw Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar gyfer cynlluniau, rhaglenni a pholisïau gyda goblygiadau defnydd tir ac effeithiau amgylcheddol sylweddol.*